Ar ôl hyn yr oedd Iesu'n gwybod bod pob peth bellach wedi ei orffen, ac er mwyn i'r Ysgrythur gael ei chyflawni dywedodd, "Y mae arnaf syched." **(Ioan 19:28)**

Dyma un o'r saith ymadrodd a lefarodd Iesu ar y groes. Mae'r geiriau'n mynegi rhywfaint o'i gyflwr i ni, ac yn ein hatgoffa bod gennym Waredwr sydd yn cydymdeimlo â ni ym mhob peth yr awn drwyddo.

Gorffen

Mae Iesu'n gwybod bod diwedd ei fywyd a'i ddioddefaint yn agos. Trwy gydol ei daith ddaearol, ac yn arbennig ar y groes, yr oedd wedi dioddef digofaint Duw yn erbyn pechod, er mwyn arbed ei bobl rhagddo ac ennill iachawdwriaeth dragwyddol iddynt. Yr oedd y dasg wedi ei chwblhau, ac, wrth wybod hynny, mae Iesu'n troi at ei angen ei hun a'i gyflwr ei hun yn y geiriau sydd gennym o dan sylw. Fe gawn yr argraff ei fod wedi canolbwyntio gymaint ar wneud ewyllys y Tad, a'i fod mor benderfynol o garu ei eiddo i'r diwedd, fel nad oedd wedi meddwl am ei hunan.

Nid er ei fwyn ei hunan
y daeth i lawr o'r ne';
ei roi ei hun yn aberth
dros eraill wnaeth efe.' (Eleazer Roberts)

Poen corfforol

Mae sôn am syched yn ein hatgoffa o'r artaith gorfforol a brofodd Iesu wrth gymryd cosb uffern ar y groes. Nid dioddefaint ysbrydol yn unig a brofodd Crist. Mae hyn yn bwysig, oherwydd bod tueddiad gan rai ers amser y Testament Newydd i wadu dyndod Crist a'i ddioddefaint dynol.

Roedd y Gnosticiaid, er enghraifft, yn dysgu bod yr ysbryd yn dda ond bod mater yn ddrwg. Ar sail hynny, roedden nhw'n dweud na allai Duw, fel ysbryd pur, wisgo corff, gan fod corff yn faterol a mater yn ddrwg. Felly, roedden nhw'n dysgu na chafodd Iesu gorff real o gwbl. Ryw rith o gorff oedd ei gorff Ef. Doedden nhw ddim yn credu ei fod yn gadael olion traed wrth gerdded, er enghraifft. Felly, yn eu tyb nhw, ni allai Crist ddioddef yn gorfforol, wrth reswm. Wrth wynebu'r groes, ni brofodd boen real y corff.

Ond mae'r efengylau'n pwysleisio bod Iesu yn bwyta ac yn yfed, yn blino ac yn diffygio ar daith, ac yn cysgu ar ôl cyfnod prysur o waith, fel pawb arall. Mae epistol cyntaf Ioan hefyd yn pwysleisio bod Ysbryd Duw yn ein

harwain i gyffesu dyfodiad Crist yn y cnawd, tra bod ysbryd Anghrist yn gwadu'r ymgnawdoliad. Os oedd Iesu am fod yn Brynwr i'r ddynoliaeth, roedd rhaid iddo fod yn ddyn. Mae'r epistol at yr Hebreaid yn ei ddisgrifio fel tywysog ein hiachawdwriaeth ac archoffeiriad tosturiol.

Er mwyn arwain dynoliaeth i iachawdwriaeth, o fod yn bechaduriaid llygredig i fod yn Grist-debyg mewn gogoniant, roedd raid iddo fod yn frawd inni. Wrth ddod yn ddyn, dangosodd **"nad oes arno gywilydd eu galw hwy'n berthnasau iddo'i hun"** (Heb. 2:11).

Er mwyn bod yn archoffeiriad i gynrychioli dynoliaeth oedd yn dioddef mewn pechod, roedd raid iddo yntau ddioddef hefyd. **"Oherwydd, am iddo ef ei hun ddioddef a chael ei demtio, y mae'n gallu cynorthwyo'r rhai sydd yn cael eu temtio"** (Heb. 2:18).

Mae'n gysur aruthrol i ni wybod, os byddwn yn profi poenau corfforol yn ein bywyd, neu wrth farw, bod ein Harchoffeiriad bendigedig yn cydymdeimlo â ni yn ein gwendid, a bod ganddo nerth i'w roi i ni orchfygu.

Cyflawni Ysgrythur

Mae Iesu hefyd yn ymwybodol bod ei fywyd Meseianaidd yn cyflawni addewidion yr Hen Destament. Mae'r mynegiant o'i syched hefyd yn cyfateb i broffwydoliaethau yn y Salmau.

Yn Salm 22.15 fe ddarllenwn: **"Y mae fy ngheg yn sych fel cragen a'm tafod yn glynu wrth daflod fy ngenau".** Mae'r gair 'cragen' yn golygu darn o lestr, mwy na thebyg wedi ei dorri. Mae'r llestr yn sych gan ei fod wedi ei grasu yn y ffwrnais. Mae'r cyfieithiad 'cragen' hefyd yn mynegi sychder y plisgyn allanol heb y bywyd mewnol. Mi fyddai corff y Gwaredwr yn sych oherwydd gwres tanbaid yr haint yn ei glwyfau, a'i esgyrn yn cael eu dadleoli. Mae bod â cheg sych yn un o nodweddion y person sydd ar fin darfod hefyd.

Yn Salm 69.21 daw'r geiriau hyn: **"Rhoesant wenwyn yn fy mwyd, a gwneud i mi yfed finegr at fy syched".** Mwy na thebyg, gwin wedi troi yn sur oedd y finegr yma. Dyma'r gwin fyddai milwyr yn ei yfed i dorri syched, a'r ddiod yma fyddai'n cael ei chynnig i ddrwgweithredwyr.

Dyma ddangos cariad anfeidrol ein Harglwydd, ei fod yn fodlon dioddef y syched tanbaid yma er mwyn bod yn ffynnon o ddŵr bywiol i bechaduriaid sychedig fyddai'n dod ato.